Barnwriaeth Cymru a Lloegr

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Canllaw i Reoli Achos Mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus

Ebrill 2008

Cynnwys

Rhagair	i
Cyfarwyddyd Ymarfer	1
Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus	9
Geirfa	21
Atodiad A: Ffurflen Gais Atodol PLO1	27
Atodiad B: Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol	29
Atodiad C: Gorchymyn Rheoli Achos	33
Siart Llif: Cyn yr achos	38
Siart Llif: Trefn y Llys	40

Rhagair

Daeth y Protocol ar gyfer Rheoli Achosion Barnwrol mewn Achosion Deddf Plant Cyfraith Gyhoeddus i rym ym mis Tachwedd 2003, gan hidlo arfer da a chanolbwyntio ar ddull newydd o reoli achosion. Er bod y Protocol wedi ennill ei le fel y fframwaith ar gyfer rheoli achosion a'i fod wedi annog partïon a'r llysoedd i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi oedi cyn datrys achosion ar gyfer plant, roedd yr Adolygiad Thematig a gyhoeddwyd gan y Tîm Adolygiad Barnwrol ym mis Rhagfyr 2005 ac Adolygiad y Llywodraeth o Achosion Gofal Plant ym mis Mai 2006 wedi nodi meysydd lle nad oedd wedi cyflawni ei amcan a lle mae angen gwella ymarfer.

Mae dadansoddi'r hyn sy'n achosi'r oedi wedi datgelu nifer o nodweddion gwaethygol. Er enghraifft, mae nifer o achosion wedi bod yn drwsgl oherwydd iddynt ddod i'r llys cyn cwblhau gwaith cyn-achos yr Awdurdod Lleol. Mewn eraill, mae diffyg rheoli achosion barnwrol mewn modd cadarn wedi arwain at fethiant eang i nodi materion diffiniol yr achos a chanolbwyntio ar eu datrys. Mae'n glir hefyd y gall plant ddioddef oherwydd nad yw rhieni na theuluoedd yn ymgysylltu digon â'r broses nac cyn yr achos nac yn ystod yr achos. Gan weithredu ar y canfyddiadau hynny, mae'r Tîm Adolygiad Barnwrol, drwy ymgynghori â'u cydweithwyr ac â'r asiantaethau allweddol eraill yn y System Cyfiawnder Teulu, wedi llunio'r gweithdrefnau symlach ar gyfer rheoli achosion ac maent wedi'u cynnwys yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac fe'u cefnogir gan Gyfarwyddyd Ymarfer manwl.

Ar yr un pryd, mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd wedi adolygu ei harweiniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol (Arweiniad a Rheoliadau Deddf Plant 1989) ar y cyd â'r Tîm Adolygiad Barnwrol i sicrhau bod yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r Arweiniad yn cyd-fynd â'i gilydd a bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Ym mhob achos pan fydd hi'n ddiogel ac yn ymarferol i wneud hynny, bydd llysoedd yn disgwyl i awdurdodau lleol fod wedi cwblhau gweithdrefnau a chynnwys teuluoedd yn unol â cham cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus hefyd wedi cael ei phrofi mewn canolfannau gwahanol ledled Cymru a Lloegr, ac mae'r ynadon teulu a'r farnwriaeth sy'n treialu achosion wedi cael eu hfforddi i ganfod y prif faterion yn yr achos a chanolbwyntio arnynt gyda'r nod o wneud y penderfyniadau gorau o fewn yr amserlen ar gyfer y plentyn.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi drwy gydol y broses, yn enwedig yn y seminarau a'r digwyddiadau hyfforddi eraill a drefnwyd neu a oruchwyliwyd gan hyfforddwyr y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, i weld y brwdfrydedd y mae barnwyr ac ynadon wedi'u dangos wrth feistroli manylion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, derbyn yr angen am reoli achosion yn ofalus ac yn benderfynol o fewn ei strwythur, nodi'r materion hanfodol, pennu'r amserlen ar gyfer eu gwaredu, a chael gwared ar unrhyw dystiolaeth ddianghenraid o wrandawiadau mewn perthynas â materion nad ydynt yn ddiffiniol.

Rhaid diolch yn arbennig i'r rheini sydd wedi drafftio darpariaethau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r dogfennau ategol ac i'r rheini sydd wedi llunio a darparu'r hyfforddiant angenrheidiol. Hoffwn eich annog i gyd i'w roi ar waith gyda'ch ymroddiad arferol

Syr Mark Potter
Llywydd yr Adran Deulu
Ebrill 2008

Gwneir y Cyfarwyddyd Ymarfer isod gan Lywydd yr Adran Deulu dan y pwerau a ddyrennir iddo gan yr Arglwydd Brif Ustus dan Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 2(2) Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, ac fe'i cymeradwyir gan yr Arglwydd Ganghellor.

Cyfarwyddyd Ymarfer

Canllaw i Reoli Achos mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus

Sgôp

1.1 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn berthnasol i achos gofal a goruchwyliaeth. Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, y mae i'w ddilyn mewn pob Achos Cyfraith Gyhoeddus arall.

1.2 Daw'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn i rym ar 1 Ebrill 2008. Nid yw'n berthnasol i geisiadau a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2008 ond mewn unrhyw achos unigol, gall y llys gyfarwyddo bod yr Offerynnau Rheoli Achos a'r Dogfennau Rheoli Achos y cyfeirir atynt yn y Cyfarwyddyd yn berthnasol naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol i'r ceisiadau hynny. Mae hyn yn amodol ar yr amcan llywodraethol isod ac ar y profiso na fydd cyfarwyddyd o'r fath nac yn achosi oedi pellach nac yn golygu dyblygu camau a gymerwyd eisoes neu benderfyniadau a wnaed eisoes yn yr achos.

1.3 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn i'w ddarllen gyda'r Rheolau ac mae'n amodol arnynt.

1.4 Ceir crynodeb o'r termau ym mharagraff 25.

Yr amcan llywodraethol

2.1 Amcan llywodraethol y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw galluogi'r llys i ddelio ag achosion mewn ffordd gyfiawn, gan dalu sylw dyledus i'r materion lles dan sylw.

Mae delio ag achos yn gyfiawn yn cynnwys, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol -

(1) sicrhau y delir ag ef yn gyflym ac yn deg;

(2) delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n cyfateb i natur, pwysigrwydd a chymhlethdod y materion;

(3) sicrhau bod y ddau barti'n gyfartal;

(4) arbed arian; a

(5) dyrannu iddo gyfran briodol o adnoddau'r llys, heb anghofio bod angen dyrannu adnoddau i achosion eraill.

Cais gan y llys yn defnyddio'r amcan llywodraethol

2.2 Rhaid i'r llys geisio gweithredu'r amcan llywodraethol pan fydd -

(1) yn ymarfer y pwerau rheoli achos y cyfeirir atynt yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn; neu

(2) yn dehongli unrhyw ddarpariaeth o'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn.

Dyletswydd y partïon

2.3 Mae'n ofynnol bod y partïon yn helpu'r llys i arddel yr amcan llywodraethol.

Rheoli achos llys

Y PRIF EGWYDDORION

3.1 Y prif egwyddorion sy'n sail i reoli achos llys mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus yw-

(1) dilyniant barnwrol: dyrennir pob achos i un o ddim mwy na dau farnwr rheoli achos (yn achos llysoedd ynadon, rheolwyr achos), a fydd yn gyfrifol am bob cam o reoli'r achos hyd at y Gwrandawiad Terfynol ac, yng nghyswllt yr Uchel Lys neu lys sirol, gall un ohonynt fod - a dylai fod, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl - y barnwr a fydd yn cynnal y Gwrandawiad Terfynol;

(2) prif offerynnau rheoli achos: rheolir pob achos gan y llys trwy ddefnyddio'r prif offerynnau rheoli achos;

(3) rheoli achos gweithredol: rheolir pob achos gan y llys gyda'r bwriad bob amser o arddel yr amcan llywodraethol;

(4) cysonder: rheolir pob achos, cyn belled ag y bo hynny'n gydnaws â'r amcan llywodraethol, mewn modd cyson a thrwy ddefnyddio'r camau safonol y darparwyd ar eu cyfer yn y Cyfarwyddyd hwn.

Y PRIF OFFERYNNAU RHEOLI ACHOS

Yr Amserlen ar gyfer y Plentyn

3.2 Bydd y llys yn pennu Amserlen briodol ar gyfer y Plentyn sy'n destun yr achos.

3.3 Bydd y llys yn pennu Amserlen ar gyfer y Plentyn a fydd yn ystyried pob cam arwyddocaol ym mywyd y plentyn sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr achos. Mae'r camau hynny'n cynnwys nid yn unig gamau cyfreithiol ond hefyd gamau cymdeithasol a chamau ym maes gofal, iechyd ac addysg.

3.4 Enghreifftiau o ddyddiadau y bydd y llys yn eu cofnodi a'u hystyried wrth bennu'r Amserlen ar gyfer y Plentyn yw dyddiadau'r canlynol -

(1) unrhyw adolygiad ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol o achos plentyn sy'n derbyn gofal (o fewn ystyr adran 22(1) Deddf 1989);

(2) y plentyn yn dechrau mewn ysgol newydd;

(3) unrhyw adolygiad gan yr Awdurdod Lleol o unrhyw ddatganiad ynghylch anghenion addysgol arbennig y plentyn;

(4) asesiad gan bediatrydd neu arbenigwr arall;

(5) canlyniad unrhyw adolygiad o gynlluniau Awdurdod Lleol ar gyfer y plentyn, er enghraifft, unrhyw gynlluniau ar gyfer parhauster trwy fabwysiadu, Gwarchodaeth Arbennig neu leoliad gyda rhieni neu berthnasau;

(6) newid neu newid arfaethedig yn lleoliad y plentyn.

Dogfennau Rheoli Achos

3.5 Mae dogfennau rheoli achos yn cynnwys -

(1) Y ffurflen gais;

(2) Ffurflen Atodol PLO 1;

(3) Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig;

(4) Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(5) Dadansoddiad o'r Achos ac Argymhellion a ddarparwyd gan Cafcass neu Cafcass Cymru;

(6) Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol;

(7) Crynodeb o Achos Partïon Eraill;

(8) Gorchmynion Rheoli Achos Drafft.

3.6 Bydd y llys yn annog defnyddio'r dogfennau rheoli achos hynny na ragnodir gan y Rheolau.

Y Cofnod Rheoli Achos

3.7 Gelwir system ffeilio'r llys ar gyfer yr achos yn Gofnod Rheoli Achos a bydd yn cynnwys y prif ddogfennau canlynol -

(1) Ffurflen Atodol PLO 1, sef y mynegai o'r dogfennau yn y Cofnod;

(2) mewn achos gofal a goruchwylio unrhyw Lythyr Cyn Achos ac unrhyw ohebiaeth ddilynol gysylltiedig yn cadarnhau safbwynt yr Awdurdod Lleol i rieni ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;

(3) Dogfennau Rheoli Achos;

(4) Cyfarwyddiadau Safonol adeg cychwyn ac adeg yr Apwyntiad Cyntaf;

(5) y Gorchmynion Rheoli Achos Drafft a gymeradwywyd gan y llys.

3.8 Disgwylir i bartïon neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol gadw eu cofnod eu hunain yn cynnwys copïau o'r dogfennau yng Nghofnod Rheoli Achos y llys.

Yr Apwyntiad Cyntaf

3.9 Pwrpas yr Apwyntiad Cyntaf yw cadarnhau dyfarniad yr achos a rhoi'r cyfarwyddiadau rheoli achos cychwynnol.

Y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft

3.10 Mae ffurflen Ddrafft y Gorchymyn Rheoli Achos yn ffurflen orchymyn arbennig sy'n cynnwys telerau cais cyffredinol i'w defnyddio fel sy'n briodol ar gyfer pob achos. Nid yn unig y mae'r ffurflen orchymyn i'w defnyddio ar gyfer llunio gorchmynion yn y ffurf a ragnodir gan y Rheolau ar ddiwedd gwrandawiad. Mae'r ffurflen hefyd i'w defnyddio fel rhestr wirio rheoli achos. Mae'r ffurflen yn cynnwys darpariaethau safonol a gynlluniwyd i helpu partïon, eu cynrychiolwyr cyfreithiol a'r llys -

(1) i ddynodi'r materion perthnasol a'r cyfarwyddiadau gweithdrefnol a allai fod yn angenrheidiol;

(2) i fonitro newidiadau i'r materion perthnasol a chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys;

(3) i ganolbwyntio ar yr hyn y bwriedir i'r achos ei gyflawni.

Trafodaeth/Cyfarfod Eiriolwyr

3.11 Bydd y llys yn ystyried cyfarwyddo eiriolwyr i gael trafodaethau cyn y Gynhadledd Rheoli Achos a'r Gwrandawiad Datrys Materion. Mae'n bur debygol y bydd eiriolwyr yn teimlo mai'r ffordd orau o gynnal y trafodaethau hyn yw trwy drefnu cyfarfod. Bwriad trafodaeth o'r fath yw hwyluso cytundeb a lleihau nifer y materion i'r llys eu hystyried. Gall eiriolwyr ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu drafodaethau Eiriolwyr.

Y Gynhadledd Rheoli Achos

3.12 Ym mhob achos, ceir Cynhadledd Rheoli Achos i alluogi'r barnwr rheoli achos neu'r rheolwr achos, gyda chydweithrediad y partïon, i reoli'r achos yn weithredol ac, ar y cyfle ymarferol cyntaf -

(1) dynodi'r materion allweddol a pherthnasol; a

(2) rhoi'r cyfarwyddiadau rheoli achos llawn, gan gynnwys cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn.

Y Gwrandawiad Datrys Materion

3.13 Ym mhob achos, ceir Gwrandawiad Datrys Materion cyn y Gwrandawiad Terfynol er mwyn -

(1) dynodi unrhyw faterion allweddol sy'n weddill, a

(2) chyn belled ag y bo hynny'n bosibl, datrys neu leihau nifer y materion hynny.

RHEOLI ACHOS GWEITHREDOL

3.14 Rhaid i'r llys arddel yr amcan llywodraethol trwy reoli achosion yn weithredol.

3.15 Mae rheoli achos gweithredol yn cynnwys -

(1) dynodi'r Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(2) dynodi'r llys priodol i gynnal yr achos a throsglwyddo'r achos mor gynnar â phosibl i'r llys hwnnw;

(3) annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd wrth gynnal yr achos;

(4) cadw'r Cofnod Rheoli Achos;

(5) dynodi'r holl ffeithiau a materion sy'n destun trafod ar y cam cynharaf yn yr achos ac ym mhob gwrandawiad;

(6) penderfynu'n brydlon pa faterion sy'n gofyn am ymchwiliad llawn a gwrandawiad a pha rai nad ydynt;

(7) penderfynu ar drefn datrys y materion;

(8) dynodi ar gam cynnar pwy ddylai fod yn barti yn yr achos;

(9) ystyried a fydd buddiannau tebygol cymryd cam penodol yn cyfiawnhau unrhyw oedi a allai ddeillio o hynny, a'r gost o'i gymryd;

(10) cyfarwyddo trafodaeth rhwng eiriolwyr ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain cyn y Gynhadledd Rheoli Achos a'r Gwrandawiad Datrys Materion;

(11) gofyn bod y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft yn cael ei ddefnyddio a chyfarwyddo eiriolwyr ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain i baratoi neu addasu'r gorchymyn drafft, pan fydd hynny'n briodol;

(12) safoni, symleiddio a rheoli -
(a) y defnydd o Ddogfennau Rheoli Achos a ffurflenni;
(b) gorchmynion a chyfarwyddiadau'r llys;

(13) rheoli -
(a) y defnydd o arbenigwyr a'u cost;
(b) natur a nifer y dogfennau sydd i'w datgelu i'r partïon a'u cyflwyno i'r llys;
(c) a yw dogfennau i'w datgelu ac, os ydynt, ym mha ffurf y maent i'w cyflwyno i'r llys;
(d) cynnydd yr achos;

(14) pan ddangosir bod hynny er budd y plentyn, annog y partïon i ddefnyddio gweithdrefn datrys anghydfod amgen os yw'r llys yn credu bod gweithdrefn o'r fath yn briodol a hwyluso defnyddio gweithdrefn o'r fath;

(15) helpu'r partïon i daro cytundeb yng nghyswllt y cyfan neu ran o'r achos;

(16) pennu'r dyddiadau ar gyfer pob apwyntiad a gwrandawiad;

(17) delio â chynifer o agweddau'r achos ag y gall ar yr un pryd;

(18) pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, delio â materion ychwanegol a allai godi o bryd i'w gilydd yn yr achos heb i'r partïon orfod dod i'r llys;

(19) defnyddio technoleg; a

(20) rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod yr achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithiol.

Y Disgwyliadau

4.1 Y disgwyliadau yw y dylai'r achos -

(1) gael ei gynnal trwy ddefnyddio'r Offerynnau Rheoli Achos a'r Dogfennau Rheoli Achos y cyfeirir atynt yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn unol â'r Tabl a gynhwysir ym mharagraff 9 isod ac a elwir yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus;

(2) cael penderfyniad terfynol yn ei gylch o fewn yr amserlen a bennwyd gan y llys yn unol â'r Amserlen ar gyfer y Plentyn - gan lynu wrth yr amseroedd targed yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gyda'r amseroedd hynny'n cael eu cymryd fel yr amser hwyaf a ganiateir ar gyfer cymryd y cam y cyfeiriwyd ato yn yr Amlinelliad.

4.2 Fodd bynnag, gellid cael achosion lle bydd y llys yn credu bod lles y plentyn yn gofyn am agwedd wahanol i'r un a gynhwyswyd yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Yn yr achosion hynny, bydd y llys -

(1) yn pennu'r cyfarwyddiadau rheoli achos priodol ac amserlen; ac

(2) yn cofnodi ar flaen y gorchymyn y rhesymau dros gefnu ar yr agwedd yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Sut y dylai'r partïon helpu i reoli achos llys

PRIF FFYRDD O HELPU

Paratoi Achos Da

5.1 Dylai'r ceisydd baratoi'r achos cyn i'r achos gael ei gychwyn. Mewn achos gofal a goruchwyliaeth, dylai'r Awdurdod Lleol ddefnyddio'r rhestr wirio Cyn-achos.

Y Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn

5.2 Rhaid i'r ceisydd baratoi a chyflwyno'r Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn. Rhaid i'r Cofnod Dyrannu gynnwys cais dyrannu'r ceisydd a chofnod o benderfyniad dyrannu'r llys a'r rhesymau. Bydd yr Amserlen ar gyfer y Plentyn yn rhan o'r Cofnod Dyrannu. Dylai'r ceisydd ddarparu gwybodaeth i ddiweddaru'r Amserlen yn rheolaidd. Y ceisydd fydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r Cofnod Dyrannu gan gynnwys yr Amserlen ar ôl pob gwrandawiad.

Dogfennau Rheoli Achos

5.3 Rhaid i'r partïon ddefnyddio'r Dogfennau Rheoli Achos.

Cydweithredu

5.4 Dylai'r partïon a'u cynrychiolwyr gydweithredu â'r llys yng nghyswllt rheoli achos, gan gynnwys pennu amserlenni er mwyn osgoi oedi annerbyniol, ac yn y gwaith o grisialu a datrys y materion sy'n sail i'r achos.

Cyfarwyddiadau

5.5 Bydd y partïon neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol -

(1) yn monitro cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys; ac

(2) yn dweud wrth y llys neu swyddog llys am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd y llys neu unrhyw oedi arall yn yr achos.

Y Cofnod Rheoli Achos

5.6 Disgwylir i'r partïon neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol gadw cofnod yn cynnwys copïau o'r dogfennau yng Nghofnod Rheoli Achos y llys.

Y Gorchmynion Rheoli Achos Drafft

5.7 Dylai partïon ddechrau ystyried cynnwys y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft mor gynnar â phosibl naill ai cyn neu yn ystod y gwaith o gwblhau ceisiadau i'r llys neu'r ymateb i'r cais. Dylent, beth bynnag, ystyried y Gorchymyn Rheoli Achos Draft ar ôl ar Apwyntiad Cyntaf.

5.8 Dylid ystyried y Gorchmynion Rheoli Achos Drafft yn barhaus gydol yr achos. Dylai'r Gorchmynion Rheoli Achos Drafft fod yn aide memoire i bawb sy'n rhan o'r achos yng nghyswllt -

(1) Yr Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(2) penderfyniadau'r rheolaeth achos;

(3) y materion a glustnodwyd.

5.9 Dim ond un Gorchymyn Rheoli Achos Drafft y dylid ei gyflwyno yn y llys ar gyfer pob Cynhadledd Rheoli Achos a Gwrandawiad Datrys Materion. Cyfrifoldeb yr eiriolwyr ar ran y ceisydd sef, mewn achos gofal a goruchwyliaeth, yr Awdurdod Lleol fel arfer, fydd paratoi'r drafftiau hynny a bod yn gyfrifol am sicrhau sylwadau gan yr eiriolwyr a chan y partïon.

5.10 Ym mharagraffau 5.3,5.7 a 5.9 mae "partïon" yn cynnwys cynrychiolwyr cyfreithiol y partïon.

Ethnigrwydd, Iaith, Crefydd a Diwylliant

6 Ym mhob cam o reoli'r achos, yn enwedig adeg yr Apwyntiad Cyntaf a'r Gynhadledd Rheoli Achos, bydd y llys yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sicrhau tystiolaeth am ethnigrwydd, iaith, crefydd a diwylliant y plentyn a phobl arwyddocaol eraill sy'n rhan o'r achos. Wedyn, bydd y llys yn ystyried goblygiadau'r dystiolaeth hon i'r plentyn yng nghyd-destun materion yr achos.

Oedolion a allai fod yn bartïon dan warchodaeth

7.1 Bydd y llys yn ymchwilio, cyn gynted â phosibl, i unrhyw fater sy'n ymwneud ag a yw parti neu ddarpar-barti sy'n oedolyn, yn brin o'r gallu (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i gynnal yr achos. Mae oedolyn sy'n brin o'r gallu i gynnal yr achos yn barti dan warchodaeth a rhaid iddo/i gael cynrychiolydd (cyfaill cyfreitha, ffrind neu warcheidwad ad litem) i gynnal yr achos ar ei ran/ei rhan.

7.2 Rhaid penderfynu ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â gallu oedolyn i gynnal yr achos cyn i'r llys roi unrhyw gyfarwyddiadau sy'n berthnasol i rôl yr oedolyn hwnnw yn yr achos.

7.3 Pan fydd yr oedolyn yn barti dan warchodaeth, dylai ei g/chynrychiolydd fod yn rhan o unrhyw gyfarwyddyd a roddir i arbenigwr, gan gynnwys cyfarwydd i arbenigwyr asesu a yw'r oedolyn, er yn barti dan warchodaeth, yn gymwys i roi tystiolaeth. Mae cyfarwyddo arbenigwyr yn gam arwyddocaol yn yr achos. Mae'n bosibl y dymuna'r cynrychiolydd ystyried (a gofyn i'r arbenigwr ystyried), a yw'r parti dan warchodaeth yn gymwys i roi tystiolaeth, eu buddiannau gorau yng nghyswllt hyn. Mae'n bosibl y dymuna'r cynrychiolydd geisio cyngor am 'fesurau arbennig'. Gall y cynrychiolydd gyflwyno dadl ar ran y parti dan warchodaeth na ddylai'r parti dan warchodaeth roi tystiolaeth.

7.4 Os ceir rheswm i gredu, ar unrhyw adeg yn ystod yr achos, y gallai parti fod yn brin o'r gallu i gynnal yr achos, yna rhaid hysbysu'r llys a cheisio cyfarwyddiadau i sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ymchwilio'n ddi-oed.

Plentyn sy'n debygol o fod yn brin o'r gallu i gynnal yr achos pan gyrhaedda ei 18 oed

8 Pan ymddengys bod plentyn -

(1) yn barti i'r achos ac nid yn destun iddo;

(2) yn dynesu at ei b/phen-blwydd yn 18 oed; ac

(3) yr ystyrir y bydd yn debygol o fod yn brin o'r gallu i gynnal yr achos pan gyrhaedda ei 18 oed,

bydd y llys yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau ynghylch ymchwilio i allu plentyn yng nghyswllt hyn.

Amlinelliad o'r broses a sut i ddefnyddio'r Prif Offerynnau Rheoli Achos

9.1 Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a nodir yn y Tabl isod yn cynnwys amlinelliad o'r canlynol -

(1) trefn gwahanol gamau'r broses;

(2) pwrpas y prif wrandawiadau rheoli achos a materion i'w hystyried ynddynt;

(3) yr amserlenni diweddaraf y dylai prif gamau'r broses ddigwydd o'u mewn.

9.2 Yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus -

(1) Mae "CRhA" yn golygu'r Gynhadledd Rheoli Achos;

(2) Mae "AC" yn golygu'r Apwyntiad Cyntaf;

(3) Mae "GDM" yn golygu Gwrandawiad Datrys Materion;

(4) Mae "TS" yn golygu'r Twrnai Swyddogol.

Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

<table>
<tr><th colspan="2">CYN-ACHOS</th></tr>
<tr><th colspan="2">RHESTR WIRIO CYN-ACHOS</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dogfennau'r Rhestr Wirio</td></tr>
<tr><td>Dogfennau i'w datgelu o ffeiliau'r ALI:

• Gorchmynion llys blaenorol a dyfarniadau/rhesymau
• Unrhyw Ddefnyddiau Asesu perthnasol
- Asesiadau cychwynnol a chraidd
- Adroddiadau adran 7 a 37
- Defnyddiau perthnasau a ffrindiau (er enghraifft, genogram)
• Adroddiadau a Chofnodion perthnasol eraill
- Defnyddiau sengl, ar y cyd neu ryngasiantaeth (ee iechyd ac addysg/ dogfennau'r Swyddfa Gartref / Mewnfudo)
- cofnodion o drafodaethau gyda'r teulu
- Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion allweddol yr ALI ar gyfer y plentyn (gan gynnwys Cofnod Trafod Strategaeth)</td><td>• Cynlluniau gofal cyn–gyfredol (er enghraifft, cynllun plentyn mewn gofal, cynllun plentyn yn derbyn gofal a chynllun amddiffyn plentyn)
• Cronoleg Gwaith Cymdeithasol
• Llythyrau Cyn Achos

Dogfennau i'w paratoi ar gyfer yr achos:

• Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig
• Datganiad Gwaith Cymdeithasol Cychwynnol
• Cynllun Gofal
• Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn</td></tr>
</table>

CAM 1 - Y MATER A'R APWYNTIAD CYNTAF	
MATER	**APWYNTIAD CYNTAF**
Ar DDIWRNOD 1 ac erbyn DIWRNOD 3	Erbyn DIWRNOD 6
Amcanion: Sicrhau cydymffurfio â'r rhestr wirio cyn-achos; dyrannu achos; cael y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer rheoli achos cychwynnol yn yr AC	**Amcanion:** Cadarnhau dyraniad; rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos cychwynnol
Ar Ddiwrnod 1: • Ffeiliau'r ALl: - Ffurflen Gais - Ffurflen Atodol PLO 1 - Dogfennau'r rhestr wirio • Swyddog llys yn cyflwyno cais • Llys yn enwebu rheolwr(wyr) llys • Llys yn rhoi cyfarwyddiadau safonol ynghylch y mater gan gynnwys: - Cydymffurfio â'r rhestr wirio cyn-achos - Dyrannu a/neu drosglwyddo - Penodi gwarcheidwad plant - Penodi twrnai ar gyfer y plentyn - Dadansoddiad Achos ar gyfer yr AC - Gwahodd y TS i weithredu ar ran pobl dan warchodaeth (plant nad ydynt yn destun achos ac oedolion analluog) - Rhestru'r AC erbyn Diwrnod 6 - Trefnu ar gyfer gwrandawiad a wrthwynebir (os oes angen) Erbyn Diwrnod 3 • Disgwylir bod gwarcheidwad plant wedi ei dyrranu • ALl yn cyflwyno'r Ffurflen Gais, Ffurflen Atodol PLO 1 a Dogfennau'r Rhestr Wirio i'r parti̇on	• Parti̇on yn hysbysu'r ALl a'r llys bod angen gwrandawiad a wrthwynebir • Llys yn trefnu ar gyfer gwrandawiad a wrthwynebir • Rheoli achos cychwynnol gan y Llys yn cynnwys: - Cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn - Cadarnhau dyrannu/trosglwyddo - Dynodi parti̇on a chynrychiolaeth ychwanegol (gan gynnwys dyrannu gwarcheidwad plant) - Dynodi achosion "Gwrandawiad Terfynol cynnar" - Craffu'r Cynllun Gofal • Llys yn rhoi cyfarwyddiadau safonol ynghylch yr AC gan gynnwys: - Dadansoddiad o'r Achos ac Argymhellion ar gyfer Camau 2 a 3 - Crynodeb o Achos yr ALl - Crynodebau o Achos Parti̇on Eraill - Datganiadau tyst cychwynnol parti̇on - Ar gyfer Cyfarfod Eiriolwyr - Rhestru CRhA neu (os yn briodol) Gwrandawiad Terfynol Cynnar - Adeg trosglwyddo
CAM 2 - CYNHADLEDD RHEOLI ACHOS	
CYFARFOD EIRIOLWYR	**CRhA**
Dim hwyrach na 2 ddiwrnod cyn CRhA	Dim hwyrach na diwrnod 45
Amcanion: Paratoi'r Gorchymyn Rheoli Achos drafft; clustnodi arbenigwyr a drafftio cwestiynau ar eu cyfer	**Amcanion:** Clustnodi mater(ion); rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos llawn
• Ystyried holl Grynodebau Achos Parti̇on Eraill a'r Dadansoddiad Achos a'r Argymhellion • Clustnodi arbenigwyr arfaethedig a drafftio cwestiynau'n unol â Chyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr • Drafftio Gorchmynion Rheoli Achos • Hysbysu'r llys os oes angen gwrandawiad a wrthwynebir • Cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft i'r rheolwr achos/barnwr rheoli achos erbyn 11am un diwrnod gwaith cyn y CRhA	• Rheoli achos manwl gan y llys - Craffu cydymffurfio â chyfarwyddiadau - Cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn - Clustnodi mater(ion) allweddol - Cadarnhau dyrannu neu drosglwyddo - Ystyried cyfarwyddiadau rheoli achos yn y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft - Craffu'r cynllun gofal - Gwirio ei fod yn cydymffurfio â Chyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr • Llys yn cyflwyno Gorchymyn Rheoli Achos • Llys yn rhestru GDM a, phan fydd angen, cyfnod o rybudd ar gyfer Gwrandawiad Terfynol

<table>
<tr><th colspan="2">CAM 3 - GWRANDAWIAD DATRYS MATERION</th></tr>
<tr><th>CYFARFOD EIRIOLWYR AR GYFER Y GDM</th><th>GDM</th></tr>
<tr><td>Rhwng 2 a 7 diwrnod cyn y GDM</td><td>Rhwng 16 a 25 wythnos</td></tr>
<tr><td>Amcan: Paratoi neu ddiweddaru'r Gorchymyn Rheoli Achos drafft</td><td>Amcanion: Datrys a lleihau nifer y materion; dynodi unrhyw faterion allweddol sy'n weddill</td></tr>
<tr><td>• Ystyried holl Grynodebau Achos Partïon Eraill a'r Dadansoddiad Achos a'r Argymhellion
• Drafftio Gorchmynion Rheoli Achos
• Hysbysu'r llys os oes angen gwrandawiad a wrthwynebir/amser i'w roi ar gyfer tystiolaeth lafar
• Cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft i'r rheolwr achos/barnwr rheoli achos erbyn 11am un diwrnod gwaith cyn y CRhA</td><td>• Llys yn dynodi'r mater(ion) allweddol (os oes rhai) i'w pennu
• Rheoli achos terfynol gan y llys:
- Craffu cydymffurfio â chyfarwyddiadau
- Ystyried cyfarwyddiadau rheoli achos yn y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft
- Craffu'r Cynllun Gofal
- Rhoi cyfarwyddiadau ynghylch dogfennau'r Gwrandawiad:
- Cytundeb trothwy neu ffeithiau/materion sy'n weddill i'w pennu
- Cynllun Tystiolaeth a Gofal Terfynol
- Dadansoddiad Achos ac Argymhellion
- Templedi tystion
- Dadleuon fframwaith
- Rhestr ddarllen/amser darllen barnwrol/amser ysgrifennu dyfarniad
- Amcangyfrif o amser
- Cydymffurfio â Bwndeli Cyfarwyddyd Ymarfer
- Rhestru neu gadarnhau Gwrandawiad
• Llys yn cyflwyno Gorchymyn Rheoli Achos</td></tr>
<tr><th colspan="2">CAM 4</th></tr>
<tr><th colspan="2">GWRANDAWIAD</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â'r Amserlen ar gyfer y Plentyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amcan: Pennu materion sy'n weddill</td></tr>
<tr><td>• Pawb yn ffeilio ac yn cyflwyno dogfennau a bwndel rheoli achos diweddaredig
• Drafftio gorchymyn/gorchmynion terfynol ar ffurf gymeradwy</td><td>• Dyfarniad/Rhesymau
• Datgelu dogfennau fel y gofynnir ar ôl y gwrandawiad</td></tr>
</table>

Dechrau'r Achos

10.1 Rhaid i'r ceisydd, sef yr Awdurdod Lleol fel arfer mewn achos gofal a goruchwyliaeth, gyflwyno'r Ffurflen Atodol PLO 1 gyda'r ffurflen gais. Rhaid i'r ceisydd hefyd gyflwyno'r Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn, sy'n cynnwys cais dyrannu'r ceisydd.

Rhestr wirio Cyn-achos

10.2 Nodir y dogfennau y bydd y llys yn disgwyl eu gweld ynghlwm wrth y cais am orchymyn gofal neu oruchwyliaeth yn y Rhestr wirio Cyn-achos yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Dylid defnyddio'r Rhestr wirio Cyn-achos cyn gynhared â phosibl fel canllaw ar gyfer y dogfennau y bydd y llys yn disgwyl eu gweld ar ddechrau'r achos, a dylid eu cyflwyno gyda'r ffurflen gais. Bydd y Rhestr wirio Cyn-achos yn hwyluso paratoadau da ar gyfer yr achos.

Cydymffurfio â'r Rhestr wirio Cyn-achos

10.3 Cydnabyddir y ceir rhai achosion pan fydd yr amgylchiadau'n golygu y gallai diogelwch a lles y plentyn gael eu peryglu pe bai dechrau'r achos yn cael ei ohirio hyd nes byddai'r holl ddogfennau sy'n briodol i'r achos ac y cyfeirir atynt yn y Rhestr wirio Cyn-achos ar gael. Mae'r llys yn cydnabod y gellid bod angen amrywio'r paratoadau i gydweddu ag amgylchiadau'r achos. Mae'r llys yn debygol o roi cyfarwyddiadau ynghylch paratoi unrhyw ddogfennau coll ar ddechrau'r achos ac adeg yr Apwyntiad Cyntaf. Mae'r llys hefyd yn cydnabod ei bod hi'n bosibl nad yw rhai dogfennau ar y Rhestr wirio Cyn-achos yn bodoli, ac na fyddant byth yn bodoli, er enghraifft, yr adroddiad Adran 37, a'i bod hi'n bosibl, mewn achos brys, na fyddai Llythyr Cyn Achos wedi'i anfon.

Yr hyn a wna'r Llys adeg Cychwyn Achos

Amcanion

11.1 Yr amcanion ar yr adeg hon yw bod y llys -

(1) mewn achos gofal a goruchwyliaeth, yn sicrhau cydymffurfio â'r rhestr wirio Cyn-achos;

(2) dyrannu achos;

(3) cael y wybodaeth sydd ei hangen i alluogi rheoli achos cychwynnol yn yr Apwyntiad Cyntaf.

11.2 Mae'r camau a gymera'r llys unwaith y bydd yr achos wedi ei gychwyn yn cynnwys y rheini a nodir ym mharagraffau 11.3 i 11.5 isod.

Dyrannu

11.3 Bydd y llys yn ystyried dyrannu'r achos, ac yn trosglwyddo i'r llys sirol yr achosion hynny sy'n amlwg yn addas ar gyfer eu trosglwyddo ar unwaith. Enghraifft o achos o'r fath yw lle ceir tystiolaeth y gallai rhiant fod yn oedolyn dan warchodaeth a bod angen cynrychiolaeth nad oes modd ei chael, ar hyn o bryd, mewn llys ynadon.

Camau Eraill i'w Cymryd gan y Llys

Cyfarwyddiadau

11.4 Bydd y llys -

(1) yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau -
  (a) sy'n briodol i'r achos gan gynnwys Cyfarwyddiadau Safonol Adeg Cychwyn;
  (b) mewn achos gofal a goruchwyliaeth, sy'n ymwneud â pharatoi a chyflwyno dogfennau ar y Rhestr wirio Cyn-achos nad ydynt eto ar gael;
  (c) sy'n ymwneud â chynrychiolaeth unrhyw barti dan warchodaeth (yng nghyswllt achos gofal a goruchwyliaeth, bydd y llys yn disgwyl bod Cafcass neu Cafcass Cymru wedi derbyn hysbysiad gan yr Awdurdod Lleol bod achos yn cael ei gychwyn;

(2) penodi gwarcheidwad plant mewn achos penodol (yng nghyswllt achos gofal a goruchwyliaeth, bydd y llys yn disgwyl bod Cafcass neu Cafcass Cymru wedi derbyn hysbysiad gan yr Awdurdod Lleol bod achos yn cael ei gychwyn);

(3) penodi twrnai ar ran y plentyn dan adran 41(3) Deddf 1989, lle bo hynny'n briodol;

(4) gofyn i'r gwarcheidwad plant neu, os yw hynny'n briodol, swyddog arall o'r gwasanaeth neu swyddog achos llys teulu Cymreig i baratoi Dadansoddiad o'r Achos ac Argymhellion ar gyfer yr Apwyntiad Cyntaf;

(5) trefnu ar gyfer gwrandawiad a wrthwynebir, os oes angen.

Pennu dyddiad ar gyfer yr Apwyntiad Cyntaf

11.5 Bydd y llys yn pennu dyddiad ar gyfer yr Apwyntiad Cyntaf a fydd, fel arfer, dim hwyrach na 6 diwrnod o ddyddiad cychwyn yr achos a, beth bynnag, yn unol â'r Amserlen ddrafft ar gyfer y Plentyn.

Rheolwyr Achos yn y Llysoedd Ynadon

11.6 Yn y llysoedd ynadon, gall clerc ynadon enwebu un, ond nid mwy na dau, o reolwyr achos.

Yr Apwyntiad Cyntaf

Amcanion

12.1 Yr Apwyntiad Cyntaf yw gwrandawiad cyntaf yr achos. Prif amcanion yr Apwyntiad Cyntaf yw -

(1) cadarnhau dyrannu; a

(2) rhoi'r cyfarwyddiadau rheoli achos cychwynnol, gan ystyried yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

12.2 Mae'r camau a gymera'r llys adeg yr Apwyntiad Cyntaf yn cynnwys y rheini a nodir ym mharagraffau 12.3 i 12.6 isod.

Camau i'w Cymryd gan y Llys

12.3 Bydd y llys -

(1) yn cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(2) yn trefnu ar gyfer unrhyw wrandawiad interim a wrthwynebir, megis cais am orchymyn gofal interim;

(3) yn cadarnhau dyrannu'r achos neu, os yn briodol, trosglwyddo'r achos;

(4) yn gofyn i'r gwarcheidwad plant neu, os yw hynny'n briodol, swyddog arall o'r gwasanaeth neu swyddog achos llys teulu Cymreig i baratoi Dadansoddiad o'r Achos ac Argymhellion ar gyfer y Gynhadledd Rheoli Achos neu Wrandawiad Datrys Materion;

(5) yn craffu'r Cynllun Gofal;

(6) yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau ynghylch -

(a) y materion hynny yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus sydd eto i'w hystyried;
(b) derbyn person na fyddai fel arall yn atebydd dan y Rheolau fel parti i'r achos;
(c) pan allai unrhyw berson sydd i'w dderbyn yn barti fod yn barti dan warchodaeth, ymchwiliad o allu'r person hwnnw i gynnal yr achos a chynrychiolaeth y person hwnnw ac, os yn briodol, gwahodd y Twrnai Swyddogol i weithredu ar ran y person hwnnw;
(d) dynodi teulu a ffrindiau fel gofalwyr arfaethedig ac unrhyw faterion ynghylch elfennau tramor, mewnfudo, awdurdodaeth a thadolaeth;
(e) mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus heblaw achos gofal a goruchwyliaeth, y dogfennau i'w cyflwyno yn y llys;
(f) tystiolaeth i'w sicrhau ynghylch a yw rhiant sy'n barti dan warchodaeth yn gymwys i wneud ei dd/datganiad ei hun.

Achos Gwrandawiad Terfynol Cynnar

12.4 Achosion sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer Gwrandawiad Terfynol cynnar yw'r rheini lle nad oes gan y plentyn unrhyw rieni, gwarcheidwaid na pherthnasau sydd eisiau gofalu am y plentyn, na gofalwyr eraill. Enghreifftiau yw'r achosion hynny lle mae'r plentyn yn faban a adawyd yn rhywle neu lle mae plentyn wedi cael ei gludo i'r wlad hon, ac yna ei adael. Bydd y llys -

(1) yn nodi yn yr Apwyntiad Cyntaf a yw'r achos yn un sy'n addas ar gyfer Gwrandawiad Terfynol cynnar; a

(2) yn pennu dyddiad ar gyfer y Gwrandawiad Terfynol hwnnw.

Pennu dyddiad ar gyfer y Gynhadledd Rheoli Achos

12.5 Bydd y llys yn pennu dyddiad ar gyfer y Gynhadledd Rheoli Achos a fydd, fel arfer, dim hwyrach na 45 diwrnod o ddyddiad cychwyn yr achos a, beth bynnag, yn unol â'r Amserlen ar gyfer y Plentyn.

Cyfarfod/trafodaeth Eiriolwyr a'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft

12.6 Bydd y llys yn ystyried cyfarwyddo trafodaeth rhwng eiriolwyr y partïon ac unrhyw ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a pharatoi Gorchymyn Rheoli Achos Drafft fel yr amlinellir isod.

Arbenigwyr

12.7 Dylai parti sydd eisiau cyfarwyddo arbenigwr gydymffurfio â Chyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr. Pan fydd partïon yn cytuno ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud ag arbenigwyr neu dystiolaeth arbenigol, rhaid cyflwyno'r cytundeb drafft ar gyfer derbyn cymeradwyaeth y llys mor gynnar â phosibl yn yr achos.

Cyfarfod/trafodaeth Eiriolwyr a'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft

13.1 Prif amcan Cyfarfod neu drafodaeth yr Eiriolwyr yw paratoi'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft.

13.2 Pan geir ymgyfreithiwr drosto'i hun, bydd y llys yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys y person hwnnw yn nhrafodaethau'r eiriolwyr a rhoi cyfarwyddiadau priodol, gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch y rhan i'w chwarae gan unrhyw Gyfaill McKenzie.

13.3 Mae amseru'r trafodaethau yn hollbwysig. Dylid osgoi'r angen i drafod y tu allan i "ddrws y llys" faterion y gellid bod wedi eu trafod yn gynharach. Mae trafodaethau i'w cynnal dim hwyrach na 2 ddiwrnod cyn y Gwrandawiad Rheoli Achos neu'r Gwrandawiad Datrys Materion, pa un bynnag sy'n briodol. Gellir cynnal y trafodaethau'n gynharach na 2 ddiwrnod cyn y gwrandawiadau hynny, er enghraifft, hyd at 7 diwrnod ynghynt.

13.4 Yn dilyn trafodaeth, dylai'r eiriolwyr baratoi neu addasu'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft. Ar lefel ymarferol, y bwriad yw y dylai'r eiriolwr ar ran y ceisydd sef, mewn achos gofal a goruchwyliaeth, yr Awdurdod Lleol fel arfer, gymryd yr awenau gyda'r gwaith o baratoi ac addasu'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft, yn dilyn trafodaeth gyda'r eiriolwyr eraill.

13.5 Os nad yw hi'n bosibl i'r eiriolwyr gytuno ynghylch telerau'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft, dylai'r eiriolwyr bennu yn y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft, neu mewn dogfen ar wahân, os yw hynny'n fwy ymarferol -

(1) y darpariaethau hynny y maent yn cytuno yn eu cylch; a

(2) y darpariaethau hynny y maent yn anghytuno yn eu cylch.

13.6 Oni chyfarwydda'r llys fel arall, rhaid cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft i'r llys dim hwyrach nag 11am ar y diwrnod cyn y Gynhadledd Rheoli Achos neu'r Gwrandawiad Datrys Materion, pa un bynnag a allai fod yn briodol.

13.7 Yng Nghyfarfod neu drafodaeth yr Eiriolwyr cyn y Gynhadledd Rheoli Achos, dylai'r eiriolwyr hefyd geisio cytuno ynghylch y cwestiynau i'w gofyn i unrhyw arbenigwyr arfaethedig (boed hwy wedi eu cyfarwyddo ar y cyd ai peidio) oni chytunwyd ynghylch hynny'n flaenorol. Dan Gyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr, mae'r cwestiynau y bydd yr arbenigwr arfaethedig yn datgan ei f/barn yn eu cylch yn gydran allweddol o'r cyfarwyddiadau arbenigol y mae gofyn i'r llys eu hystyried yn y Gynhadledd Rheoli Achos.

Cynhadledd Rheoli Achos

Amcanion

14.1 Y Gynhadledd Rheoli Achos yw'r prif wrandawiad lle bydd y llys yn rheoli'r achos. Prif amcanion y Gynhadledd yw -

(1) dynodi materion allweddol; a

(2) rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos llawn.

14.2 Mae'r camau a gymera'r llys yn y Gynhadledd Rheoli Achos yn cynnwys y camau hynny a nodir ym mharagraffau 14.3 i 14.5 isod.

Camau i'w Cymryd gan y Llys

14.3 Bydd y llys -

(1) yn adolygu ac yn cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(2) yn cadarnhau dyrannu neu drosglwyddo'r achos;

(3) yn craffu'r Cynllun Gofal;

(4) yn dynodi'r materion allweddol;

(5) yn dynodi'r materion rheoli achos sy'n weddill;

(6) yn datrys materion rheoli achos sy'n weddill drwy gyfeirio at y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft;

(7) yn dynodi unrhyw gamau arbennig megis yr angen am fynediad ar gyfer pobl anabl neu ddarparu ar gyfer tystion bregus;

(8) yn craffu'r Cofnod Rheoli Achos i wirio a gydymffurfiwyd â chyfarwyddiadau ac oni chydymffurfiwyd, yn ystyried gwneud cyfarwyddiadau pellach, fel y bo'n briodol;

(9) pan fydd angen tystiolaeth arbenigol, yn archwilio a yw'r partïon wedi cydymffurfio â Chyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr, yn benodol adran 4 (Paratoi ar gyfer y gwrandawiad perthnasol) ac ystyried rhoi cyfarwyddiadau fel y bo'n briodol.

Gorchymyn Rheoli Achos

14.4 Bydd y llys yn cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos cymeradwy. Disgwylir i bartïon neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol gyflwyno, mewn fformat electronig, y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft cymeradwy terfynol ar derfyn, neu'r un diwrnod â'r Gynhadledd Rheoli Achos.

Pennu Dyddiad ar gyfer y Gwrandawiad Datrys Materion/Gwrandawiad Terfynol

14.5 Bydd y llys yn pennu -

(1) dyddiad ar gyfer y Gwrandawiad Datrys Materion a fydd, fel arfer, rhwng 16 a 25 wythnos o ddyddiad cychwyn yr achos a, beth bynnag, yn unol â'r Amserlen ar gyfer y Plentyn; a

(2) os bydd rhaid, pennu cyfnod ar gyfer cynnal Gwrandawiad terfynol y cais, oni fydd dyddiad wedi'i bennu'n barod.

Y Gwrandawiad Datrys Materion

Amcanion

15.1 Amcanion y gwrandawiad hwn yw -

(1) datrys a lleihau nifer y materion

(2) dynodi materion allweddol sy'n weddill sydd angen eu datrys.

15.2 Mae'n debygol mai'r Gwrandawiad Datrys Materion fydd y gwrandawiad cyn y Gwrandawiad Terfynol. Gwneir cyfarwyddiadau rheoli achos terfynol a pharatoadau eraill ar gyfer y Gwrandawiad Terfynol yn y gwrandawiad hwn.

Camau i'w Cymryd gan y Llys

15.3 Bydd y llys -

(1) yn dynodi'r materion allweddol (os oes rhai) i benderfynu yn eu cylch;

(2) yn adolygu ac yn cadarnhau'r Amserlen ar gyfer y Plentyn;

(3) yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos ynghylch -

(a) unrhyw fater heb ei ddatrys yn y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft;

(b) paratoi a chyflwyno tystiolaeth derfynol, gan gynnwys cyflwyno templedi tystion;

(c) dadleuon fframwaith;

(d) paratoi a chyflwyno bwndeli yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer Bwndeli;

(e) unrhyw gytundeb ynghylch bodloni'r meini prawf trothwy dan adran 31 Deddf 1989 neu ffeithiau a materion sydd eto i benderfynu yn eu cylch yn y cyswllt hwnnw neu yng nghyswllt unrhyw gwestiynau lles a gyfyd;

(f) amcangyfrifon o amser;

(g) y rhestr ddarllen farnwrol a'r amser darllen tebygol ac amser ysgrifennu dyfarniad;

(4) Cyflwyno'r Gorchymyn Rheoli Achos.

15.4 Er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, pwrpas Gwrandawiad Datrys Materion yw -

(1) dynodi materion allweddol na chytunwyd yn eu cylch;

(2) archwilio a oes modd cytuno ynghylch y materion allweddol hynny; a

(3) lle nad oes modd cytuno ynghylch y materion hynny, archwilio'r dull mwyaf cymesur o ddatrys y materion hynny.

15.5 Disgwylir mai'r ffordd o ddatrys y materion allweddol na ellir cytuno yn eu cylch fydd mewn gwrandawiad (fel arfer, y Gwrandawiad Terfynol) lle ceir cyfle i'r dystiolaeth lafar berthnasol gael ei chlywed a'i herio.

Mynychu'r Gynhadledd Rheoli Achos a'r Gwrandawiad Datrys Materion

16 Fel arfer, dylai eiriolwr sy'n cynnal y Gwrandawiad Terfynol fynychu'r Gynhadledd Rheoli Achos a'r Gwrandawiad Datrys Materion. Os nad oes modd i'r eiriolwr hwn fod yn bresennol, yna dylai eiriolwr sy'n gyfarwydd â materion yr achos fod yn bresennol.

Pwerau Hyblyg y Llys

17.1 Tynnir sylw at bwerau hyblyg y llys naill ai yn dilyn cyflwyno'r cais yn y llys hwnnw, trosglwyddo'r achos i'r llys hwnnw neu ar unrhyw adeg arall yn yr achos.

17.2 Gall y llys roi cyfarwyddiadau heb wrandawiad, gan gynnwys pennu dyddiad ar gyfer y Gwrandawiad Terfynol neu gyfnod ar gyfer cynnal y Gwrandawiad Terfynol. Gall y camau y bydd y llys, fel arfer, yn eu cymryd yn ystod gwahanol gamau'r achos y darperir ar eu cyfer yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gael eu cymryd gan y llys ar gam arall o'r achos, os yw amgylchiadau'r achos yn gofyn am weithredu felly.

17.3 Mae pwerau hyblyg y llys yn cynnwys gallu'r llys i ganslo neu ail-gynnal gwrandawiad penodol. Er enghraifft, os yw hi'n ymarferol bosibl i'r mater sy'n ganolbwynt i'r achos gael ei grisialu a'i ddatrys trwy gynnal Gwrandawiad Terfynol, yna wrth gyflawni'r amcan llywodraethol, rhaid cymryd agwedd hyblyg o'r fath er mwyn sicrhau cydymffurfio ag adran 1(2) Deddf 1989.

Datrys Anghydfod Amgen

18.1 Bydd y llys yn annog y partïon i ddefnyddio gweithdrefn datrys anghydfod amgen a hwyluso defnyddio gweithdrefn o'r fath -

(1) pan fydd ar gael yn rhwydd;

(2) pan welir bod hynny er bydd y plentyn; a

(3) pan fydd hynny'n ymarferol resymol ac yn ddiogel.

18.2 Ar unrhyw gam o'r achos, gall y partïon ofyn i'r llys am gyngor am ddatrys anghydfod amgen.

18.3 Ar unrhyw gam o'r achos, bydd y llys ei hun yn ystyried a yw datrys anghydfod amgen yn briodol. Os ydyw, gall y llys gyfarwyddo bod gwrandawiad neu achos yn cael ei ohirio am gyfnod penodol a ystyria'n briodol -

(1) er mwyn galluogi'r partïon i gael gwybodaeth a chyngor am ddatrys anghydfod amgen; a

(2) os yw'r partïon yn cytuno, er mwyn galluogi datrys anghydfod amgen i ddigwydd.

18.4 Cydnabyddir yn benodol na all ac na ddylai unrhyw barti gael ei orfodi i ddechrau unrhyw fath o ddatrys anghydfod amgen os ydynt yn amharod i wneud hynny.

Cydweithredu

19.1 Gydol yr achos, dylai'r partïon a'u cynrychiolwyr gydweithredu pryd bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol er mwyn helpu i sicrhau mai lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf oll.

19.2 Ym mhob ymddangosiad llys, bydd y llys yn gofyn i'r partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol -

(1) pa gamau a gymerwyd ganddynt i sicrhau cydweithrediad ac i ba raddau y llwyddasant;

(2) os yn briodol, pam na lwyddwyd i sicrhau cydweithrediad; a

(3) y camau sydd angen eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion angenrheidiol er mwyn sicrhau cydweithrediad.

Cyfarwyddiadau Cytûn

20.1 Anogir y partïon, eu hymgynghorwyr a'r gwarcheidwad plant, i geisio cytuno ynghylch cyfarwyddiadau ar gyfer rheoli'r achos.

20.2 Er mwyn cael cymeradwyaeth y llys, rhaid i'r cyfarwyddiadau cytûn -

(1) bennu Amserlen ar gyfer y Plentyn drwy gyfeirio at ddyddiadau calendr ar gyfer cymryd camau ar gyfer paratoi'r achos;

(2) cynnwys dyddiad pan gynigir cynnal y gwrandawiad nesaf.

Amrywio amserlen rheoli achos

21 Pwysleisir bod rhaid i barti neu warcheidwad plant wneud cais i'r llys ar y cyfle cyntaf posibl os ydynt eisiau newid, trwy ymestyn, y dyddiadau a bennwyd gan y llys ar gyfer -

(1) apwyntiad cyfarwyddiadau;

(2) Apwyntiad Cyntaf;

(3) Cynhadledd Rheoli Achos;

(4) Gwrandawiad Datrys Materion;

(5) y Gwrandawiad Terfynol;

(6) y cyfnod a bennwyd ar gyfer cynnal Gwrandawiad terfynol y cais; neu

(7) unrhyw drafodaeth rhwng eiriolwyr neu ar gyfer cyflwyno'r Gorchmynion Rheoli Achos Drafft.

Pwy sy'n cyflawni swyddogaethau'r Llys

22.1 Pan fydd y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn darparu ar gyfer i'r Llys gyflawni swyddogaethau rheoli achos, yna ac eithrio pan fydd unrhyw reol, cyfarwyddyd ymarfer, unrhyw ddeddfiad arall neu Gyfarwyddiadau Achos Teulu (Dyrannu i'r Farnwriaeth) ((1999) 2 FLR 799) yn darparu fel arall, gellir cyflawni'r swyddogaethau -

(1) yng nghyswllt achos yn yr Uchel Lys mewn cofrestrfa ddosbarth, gan unrhyw farnwr neu farnwr rhanbarth gyda'r Llys hwnnw, gan gynnwys barnwr rhanbarth gyda'r brif gofrestrfa;

(2) yng nghyswllt achos yn y llys sirol, gan unrhyw farnwr neu farnwr rhanbarth gan gynnwys barnwr rhanbarth gyda'r brif gofrestrfa pan fydd y brif gofrestrfa'n cael ei thrin fel pe bai'n llys sirol; a

(3) yng nghyswllt achos mewn llys ynadon trwy -
(a) unrhyw lys achos teulu â chyfansoddiad sy'n unol ag adrannau 66 a 67 Deddf 1980;
(b) un ynad neu
(c) clerc ynadon .

22.2 Gall y swyddogaethau rheoli achos i'w hymarfer gan glerc ynadon gael eu hymarfer gan glerc ynadon cynorthwyol, cyn belled ag y bo'r person hwn wedi ei awdurdodi'n benodol gan glerc ynadon i ymarfer swyddogaethau rheoli achos. Dylid cymryd bod unrhyw gyfeiriad yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn at glerc ynadon yn cynnwys clerc ynadon

cynorthwyol a awdurdodwyd felly. Gall y clerc ynadon, yn benodol, benodi un ond nid mwy na dau glerc ynadon cynorthwyol fel rheolwyr achos ar gyfer pob achos.

22.3 Mewn achos mewn llys ynadon, lle mae parti'n credu bod materion yn debygol o godi mewn gwrandawiad (gan gynnwys yr Apwyntiad Cyntaf, Cynhadledd Rheoli Achos a Gwrandawiad Datrys Materion) y mae angen penderfynu yn eu cylch gan lys achos teulu, yn hytrach na chan glerc ynadon, yna dylai'r parti hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig i'r llys o hynny o leiaf 2 ddiwrnod cyn y gwrandawiad.

22.4 Gall llysoedd achos teulu ystyried trefnu i sicrhau bod llys â chyfansoddiad sy'n unol ag a 66 Deddf 1980 ar gael yr un pryd ag y mae Gwrandawiadau Datrys Materion yn cael eu clywed gan glerc ynadon. Dylai hynny olygu mai bychan iawn fyddai unrhyw oedi oherwydd bod y clerc ynadon yn credu, am ba reswm bynnag, ei bod hi'n amhriodol i glerc ynadon gyflawni swyddogaeth rheoli achos oherwydd mater penodol, a'r clerc ynadon wedyn yn cyfeirio'r mater hwnnw i'r llys.

Technoleg

23 Pan fydd y cyfleusterau ar gael i'r llys ac i'r partïon, bydd y llys yn ystyried gwneud defnydd llawn o dechnoleg, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth electronig, a chynadledda fideo neu gynadledda ffôn.

Cyfarwyddyd Ymarfer Arall

24.1 Rhaid darllen y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn gyda Chyfarwyddyd Ymarfer Bwndeli.

24.2 Cymhwysir Cyfarwyddyd Ymarfer Bwndeli i Achos Cyfraith Gyhoeddus yn yr Uchel Lys ac mewn llys sirol gyda'r addasiadau canlynol -

(1) ychwanegu "ac eithrio'r Apwyntiad Cyntaf, y Gynhadledd Rheoli Achos a'r Gwrandawiad Datrys Materion y cyfeiriwyd atynt yn y Cyfarwyddyd Ymarfer: Canllaw i Reoli Achos mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus lle nad oes unrhyw geisiadau a wrthwynebir yn cael eu clywed yn y gwrandawiadau hynny" at baragraff 2.2;

(2) dylid darllen y cyfeiriad at -
   (a) y "Protocol ar gyfer Rheoli Achos Barnwrol mewn Achosion Deddf Plant Cyfraith gyhoeddus (2003) 2 FLR 719" ym mharagraff 6.1;
   (b) y "Cyfarwyddyd Ymarfer: Achosion Gofal: Parhad Barnwrol a Rheoli Achos Barnwrol" ym mharagraff 15; a
   (c) "y Protocol Cyfraith Gyhoeddus" ym mharagraff 15

fel pe bai'n cyfeirio at y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn.

24.3 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn disodli Cyfarwyddyd Ymarfer: Achosion Gofal: Parhad Barnwrol a Rheoli Achos Barnwrol a atodwyd at y Protocol ar gyfer Rheoli Achos Barnwrol mewn Achosion Deddf Plant Cyfraith Gyhoeddus (2003) 2 FLR 719.

Geirfa

25 Yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn -

(1) Mae “Deddf 1989 “ yn golygu Deddf Plant 1989;

(2) Mae “Deddf 1980 “ yn golygu Deddf Llysoedd Ynadon 1980;

(3) Mae “eiriolwr” yn golygu rhywun sy’n ymarfer hawl i ymddangos fel cynrychiolydd, neu ar ran, parti;

(4) Mae “Cofnod Dyrannu a’r Amserlen ar gyfer y Plentyn” yn golygu dogfen sy’n cynnwys -
- (a) cais yr Awdurdod Lleol ar gyfer dyrannu;
- (b) amserlen arfaethedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer y Plentyn;
- (c) penderfyniadau a rhesymau’r llys ynghylch dyrannu; a
- (d) yr Amserlen ar gyfer y Plentyn a gymeradwywyd gan y llys;

(5) Mae “datrys anghydfod amgen” yn golygu’r dulliau o ddatrys anghydfod heb fynd drwy broses arferol y llys;

(6) Mae “clerc ynadon cynorthwyol” yn golygu’r ystyr a roddwyd iddo gan adran 27(5) Deddf Llysoedd 2003;

(7) Mae’r “Cyfarwyddyd Ymarfer Bwndeli” yn golygu Cyfarwyddyd Ymarfer Achos Teulu: Bwndeli Llys (Ymarfer Cyffredinol i’w Ddilyn ym mhob Llys heblaw Llys Achos Teulu) 27 Gorffennaf 2006;

(8) Mae “Dadansoddiad Achos ac Argymhellion” yn golygu amlinelliad ysgrifenedig neu lafar o’r achos o safbwynt y plentyn, a hwnnw wedi’i baratoi gan warcheidwad plant neu swyddog arall o’r gwasanaeth neu swyddog achos teulu Cymreig ar wahanol gamau o’r achos ar gais y llys, i ddarparu -
- (a) dadansoddiad o’r materion y mae angen eu datrys yn yr achos, gan gynnwys -
  - (i) unrhyw niwed neu risg o niwed;
  - (ii) barn y plentyn ei hun;
  - (iii) y cyd-destun teuluol, gan gynnwys cyngor ynghylch ethnigrwydd, iaith, crefydd a diwylliant y plentyn a phobl arwyddocaol eraill;
  - (iv) gwaith yr Awdurdod Lleol a chynllun gofal arfaethedig;
  - (v) cyngor am broses y llys gan gynnwys yr Amserlen ar gyfer y Plentyn; a
  - (vi) dynodi’r gwaith sydd eto i’w wneud ar ran y plentyn yn y tymor byr a’r tymor hwy; a
- (b) argymhellion ar gyfer canlyniadau, er mwyn diogelu a hyrwyddo buddiannau gorau’r plentyn yn yr achos;

(9) Mae “Dogfennau Rheoli Achos” yn cynnwys y dogfennau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3.5;

(10) Mae “Cofnod Rheoli Achos” yn golygu system ffeilio’r llys ar gyfer yr achos, sy’n cynnwys yr holl ddogfennau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3.7;

(11) Mae “rheolwr achos” yn golygu clerc ynadon neu glerc ynadon cynorthwyol sy’n rheoli’r achos yn y llysoedd ynadon;

(12) “Mae “Cynllun Gofal” yn golygu “cynllun adran 31A” y cyfeiriwyd ato yn adran 31A Deddf 1989;

(13) Mae “Asesiad Craidd” yn golygu’r asesiad a wneir gan yr Awdurdod Lleol yn unol â’r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a’u Teuluoedd (yr Adran Iechyd, 2000);

(14) Mae “llys” yn golygu Uchel Lys, llys sirol neu lys ynadon;

(15) Mae “swyddog llys” yn golygu -
(a) yn yr Uchel Lys neu lys sirol, aelod o staff y llys; ac
(b) mewn llys ynadon, y swyddog dynodedig;

(16) Mae “Gorchymyn Rheoli Achos Drafft” yn golygu’r ddogfen rheoli achos ddrafft ar ffurf gorchymyn a gynhwysir yn Atodiad C y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn;

(17) Mae “Cyfarwyddyd Ymarfer Arbenigwyr” yn golygu’r Cyfarwyddyd Ymarfer ynghylch Arbenigwyr mewn Achos Teulu sy’n ymwneud â Phlant a ddaw i rym yr un dyddiad â’r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn;

(18) Mae “genogram” yn golygu coeden deulu, sy’n dangos cefndir y teulu ar ffurf diagram;

(19) Mae “gwrandawiad” yn cynnwys apwyntiad cyfarwyddiadau;

(20) Mae “Asesiad Cychwynnol” yn golygu’r asesiad a wneir gan yr Awdurdod Lleol yn unol â’r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a’u Teuluoedd (yr Adran Iechyd, 2000);

(21) Mae “Datganiad Gwaith Cymdeithasol Cychwynnol” yn golygu datganiad a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol sydd wedi ei gyfyngu’n gaeth i’r dystiolaeth ddilynol -
(a) y digwyddiad(au) sbardunol ac amgylchiadau cefndir sy’n berthnasol i’r seiliau a’r rhesymau dros wneud y cais, gan gynnwys disgrifiad byr o unrhyw brosesau atgyfeirio ac asesu sydd eisoes wedi digwydd;
(b) unrhyw ffeithiau am faterion sy’n wybodaeth bersonol i’r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi eu cyfyngu i’r canfyddiadau a geisir gan yr Awdurdod Lleol;
(c) unrhyw gamau brys a gorchmynion llys blaenorol sy’n berthnasol i’r cais;
(d) unrhyw benderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod Lleol sy’n berthnasol i’r cais;
(e) gwybodaeth sy’n berthnasol i ethnigrwydd, iaith, crefydd, diwylliant, hil ac elfen agored i niwed y plentyn a phobl arwyddocaol eraill ar ffurf ‘proffil teulu’ ynghyd â disgrifiad naratif a manylion y gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill sy’n berthnasol i’r rheini;
(f) pan fydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud cais am orchymyn interim: cynigion gwreiddiol yr Awdurdod Lleol ar gyfer y plentyn (sydd hefyd i’w nodi yn y Cynllun Gofal) gan gynnwys lleoliad, cyswllt â rhieni a phobl arwyddocaol eraill a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol a gynigir;
(g) cynigion gwreiddiol yr Awdurdod Lleol ar gyfer asesiad pellach o’r partïon yn ystod yr achos gan gynnwys trac dwbl/cynllunio cydamserol (pan fydd yr Awdurdod Lleol yn archwilio mwy nag un opsiwn parhauster);

(22) Mae “cynrychiolydd cyfreithiol” yn golygu bargyfreithiwr neu dwrnai, cyflogai twrnai neu ymgyfreithiwr awdurdodedig arall (yn ôl diffiniad Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990) sydd wedi ei gyfarwyddo i weithredu ar ran parti yng nghyswllt yr achos;

(23) Mae “Llythyr Cyn Achos” yn golygu unrhyw lythyr gan yr Awdurdod Lleol sy’n cynnwys hysbysiad ysgrifenedig i’r rhieni ac eraill â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn o fwriad yr Awdurdod Lleol i wneud cais i’r llys am orchymyn gofal neu oruchwyliaeth;

(24) Mae “Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol” yn golygu crynodeb ar gyfer pob gwrandawiad rheoli achos yn y ffurflen a gynhwysir yn Atodiad B y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn a rhaid iddo gynnwys y wybodaeth ganlynol -

(a) y ceisiadau a gyflwynwyd yn yr achos cyfredol;
(b) unrhyw achos blaenorol yng nghyswllt y plentyn[plant] ac unrhyw orchmynion a wnaed mewn achos blaenorol neu yn yr achos cyfredol y mae’r plentyn[plant] yn destun iddynt;
(c) trefniadau byw cyfredol y plentyn[plant] a threfniadau ar gyfer cyswllt rhwng y plentyn[plant] a’r rhiant[rhieni] neu oedolyn neu blentyn perthnasol arall;
(d) crynodeb byr iawn o’r digwyddiad(au) neu amgylchiadau sy’n sail i’r cais ac o gefndir yr achos;
(e) crynodeb o unrhyw bryderon a allai fod gan yr Awdurdod Lleol ynghylch gallu meddyliol oedolyn i ofalu am y plentyn neu allu’r oedolyn i baratoi ar gyfer yr achos;
(f) Materion Allweddol yr achos;
(g) unrhyw gytundebau sy’n bodoli ynghylch y Materion Allweddol neu’r canfyddiadau ffeithiol a geisir gan yr Awdurdod Lleol;
(h) a yw cais am leoliad ar gyfer mabwysiadu ymhlith yr ystod o opsiynau y bydd yn rhaid eu hystyried;
(i) unrhyw achos cyfredol neu arfaethedig (e.e. achos troseddol, achos teulu arall, disgyblaeth, mewnfudo neu benderfyniadau gallu/iechyd meddyliol) sy’n berthnasol i benderfynu ynglŷn â’r cais[ceisiadau];
(j) y materion a’r cyfarwyddiadau y bydd gofyn i’r llys eu hystyried yn y Gynhadledd Rheoli Achos/Gwrandawiad Datrys Materion, gan gynnwys unrhyw orchmynion interim a geisir;
(k) unrhyw gamau na gymerwyd neu gyfarwyddiadau na gydymffurfiwyd â hwy, esboniad o’r rhesymau a’r effaith, os o gwbl, ar yr Amserlen ar gyfer y Plentyn;
(l) rhestr ddarllen gymeradwy ac awgrym o amser darllen;
(m) unrhyw wybodaeth ychwanegol sy’n berthnasol i’r Amserlen ar gyfer y Plentyn neu i gynnal y gwrandawiad neu achos;
(n) manylion cyswllt pob eiriolwr, eu twrneiod (lle bo hynny’n briodol) a phobl arwyddocaol eraill e.e. gweithiwr allweddol neu reolwr tîm yr Awdurdod Lleol a gwarcheidwad y plant;

(25) Mae “clerc ynadon” yn golygu’r ystyr a roddwyd iddo gan adran 27(1) Deddf Llysoedd 2003;

(26) Mae “Cyfaill McKenzie” yn golygu unrhyw berson y mae’r llys yn caniatáu iddo eistedd wrth ymyl ymgyfreithiwr heb gynrychiolaeth mewn llys i helpu’r ymgyfreithiwr trwy ysgogi, cadw nodiadau a rhoi cyngor i’r ymgyfreithiwr;

(27) Mae “Crynodebau Achos Partïon Eraill” yn golygu crynodebau gan bartïon heblaw’r Awdurdod Lleol sy’n cynnwys -
  (a) cynigion y parti ar gyfer dyfodol tymor hir y plentyn (i gynnwys lleoliad a chyswllt);
  (b) ateb y parti i Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig yr Awdurdod Lleol;
  (c) unrhyw gais ar gyfer asesu / tystiolaeth arbenigol; a
  (d) enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt unrhyw deulu neu ffrindiau yr awgrymir cysylltu â hwy yng nghyswllt gofal / cyswllt tymor hir neu ysbaid;

(28) Mae “Rhestr Wirio Cyn-achos” yn golygu’r rhestr wirio o ddogfennau a nodir yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus;

(29) Mae “Achos Cyfraith Gyhoeddus” yn golygu achos ar gyfer -
  (a) gorchymyn preswyliaeth dan adran 8 Deddf 1989 yng nghyswllt plentyn sy’n destun gorchymyn gofal;
  (b) gorchymyn llety diogel dan adran 25 Deddf 1989;
  (c) gorchymyn gofal dan adran 31(1)(a) Deddf 1989 neu ryddhau gorchymyn o’r fath dan adran 39(1) Deddf 1989;
  (d) gorchymyn yn rhoi caniatâd i newid cyfenw plentyn neu symud plentyn o’r Deyrnas Unedig dan adran 33(7) Deddf 1989;
  (e) gorchymyn goruchwyliaeth dan adran 31(1)(b) Deddf 1989, rhyddhau neu amrywio gorchymyn o’r fath dan adran 39(2) y Ddeddf honno, neu ymestyn neu ymestyn ymhellach orchymyn o’r fath dan baragraff 6(3) Atodlen 3 y Ddeddf honno;
  (f) gorchymyn yn darparu ar gyfer cyswllt dan 34(2) i (4)Deddf 1989 neu orchymyn yn amrywio neu’n rhyddhau gorchymyn o’r fath dan adran 34(9) y Ddeddf honno;
  (g) gorchymyn goruchwyliaeth addysg, ymestyn gorchymyn goruchwyliaeth addysg dan baragraff 15(2) Atodlen 3 Deddf 1989, neu ryddhau gorchymyn o’r fath dan baragraff 17(1) Atodlen 3 y Ddeddf honno;
  (h) gorchymyn yn amrywio cyfarwyddiadau a wnaed gyda gorchymyn gofal interim neu orchymyn goruchwyliaeth interim dan adran 38(8)(b) Deddf 1989;
  (i) gorchymyn dan adran 39(3) Deddf 1989 yn amrywio gorchymyn goruchwyliaeth cyn belled ag y mae’n effeithio ar rywun y mae’r plentyn yn byw ag ef/hi ond sydd heb hawl i wneud cais am ryddhau’r gorchymyn;
  (j) gorchymyn dan adran 39(3A) Deddf 1989 yn amrywio neu’n rhyddhau gorchymyn gofal interim cyn belled ag y mae’n pennu gofyniad cau allan ar rywun sydd heb hawl i wneud cais am ryddhau’r gorchymyn;
  (k) gorchymyn dan adran 39(3B) Deddf 1989 yn amrywio neu’n rhyddhau gorchymyn gofal interim i’r graddau y mae’n rhoi hawl i arestio ynghlwm wrth ofyniad cau allan;
  (l) disodli gorchymyn goruchwylio â gorchymyn gofal dan adran 39(4) Deddf 1989;
  (m) gorchymyn asesu plentyn neu amrywio neu ryddhau gorchymyn o’r fath dan adran 43(12) Deddf 1989;
  (n) gorchymyn yn caniatáu i’r Awdurdod Lleol drefnu bod unrhyw blentyn yn ei ofal yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr dan baragraff 19(1) Atodlen 2 Deddf 1989;
  (o) gorchymyn cyfrannu, neu amrywio neu ddiddymu gorchymyn o’r fath dan baragraff 23(8), Atodlen 2 Deddf 1989;

(30) Mae “Rheolau” yn golygu rheolau llys sy’n llywodraethu’r ymarfer a’r weithdrefn i’w dilyn mewn Achos Cyfraith Gyhoeddus;

(31) Mae “Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig” yn golygu’r atodlen o ganfyddiadau ffeithiol a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol yn ddigon i fodloni’r meini prawf trothwy dan adran 31 (2) Deddf 1989 ac i fwydo gwybodaeth i’r Cynllun Gofal;

(32) Mae “Adroddiad Adran 7” yn golygu unrhyw adroddiad dan adran 7 Deddf 1989;

(33) Mae “Adroddiad Adran 37” yn golygu unrhyw adroddiad gan yr Awdurdod Lleol i’r llys o ganlyniad i gyfarwyddyd dan adran 37 Deddf 1989;

(34) Mae “Cronoleg Gwaith Cymdeithasol” yn golygu amserlen sy’n cynnwys -

(a) crynodeb byr o ddyddiadau a digwyddiadau arwyddocaol ym mywyd y plentyn mewn trefn gronolegol – cofnod cyfredol i’w ddiweddaru yn ystod yr achos;

(b) gwybodaeth dan y penawdau canlynol -

(i) rhif cyfresol;

(ii) dyddiad;

(iii) manylion digwyddiadau

(iv) cyfeiriadaeth tystion neu ddogfennau (lle bo hynny’n berthnasol);

(35) Mae “Achos penodedig” yn golygu’r ystyr a roddwyd iddo gan adran 41(6) Deddf 1989;

(36) “Mae “Cyfarwyddiadau Safonol adeg Cychwyn ac adeg Apwyntiad Cyntaf” yn cynnwys y cyfarwyddiadau a nodir yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, Cam 1;

(37) Mae “Cofnod Trafodaeth Strategol” yn golygu nodyn o’r drafodaeth strategol o fewn ystyr “Gweithio Ynghyd er mwyn Diogelu Plant” (2006);

(38) Mae “Ffurflen Atodol PLO 1” yn golygu’r ffurflen a nodir yn Atodiad A y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn sydd i’w chyflwyno gyda’r ffurflen gais ac yna ei defnyddio fel Mynegai i Gofnodi Rheoli Achos y Llys;

(39) Mae “Amserlen ar gyfer y Plentyn” yn golygu’r amserlen a bennir gan y llys sy’n briodol ar gyfer y plentyn sy’n destun yr achos ac mae’n rhan o’r Cofnod Dyrannu.

Atodiad A: Ffurflen Atodol PLO1

ATODIAD A

FFURFLEN ATODOL PLO 1

Cais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio: Ffurflen Atodol

RHAN 1 RHESTR WIRIO CYN-FFEILIO

Rhaid i'r awdurdod lleol lenwi a chyflwyno'r rhestr wirio hon gydag unrhyw gais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwyliaeth er mwyn pennu'r dogfennau cyn-achos a ffeilir gyda'r cais [Colofn (a)] ac er mwyn dynodi'r rheini nad ydynt yn berthnasol [Amh]. Os bydd unrhyw ddogfen berthnasol heb ei ffeilio gyda'r cais, rhaid datgan y rheswm ac unrhyw ddyddiad y disgwylir eu ffeilio [Colofn (d)]. Mae Colofnau (b) ac (c) i'w defnyddio gan y llys i gofnodi unrhyw ddogfennau cyn-achos a ffeilir yn ddiweddarach.
Rhaid i bob dogfen a ffeilir gyda'r cais gael eu marcio'n glir gyda'u disgrifiad a'u rhifo'n ddilynol yn y drefn ganlynol

	Categori	**Dogfen**	**Amh**	**(a) Ffeilwyd adeg cyflwyno**	**(b) Ffeilwyd erbyn AC**	**(c) Ffeilwyd erbyn CRhA**	**(d) Rheswm dros beidio â ffeilio / dyddiad ffeilio disgwyliedig**
	Dogfennau a baratowyd ar gyfer yr achos						
1	Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig						
2	Datganiad Gwaith Cymdeithasol Cychwynnol						
3	Cynllun Gofal						
4	Cofnod Dyrannu a'r Amserlen ar gyfer y Plentyn						
	Dogfennau ym meddiant yr awdurdod lleol						
5	Achos blaenorol	Gorchmynion					
		Dyfarniad/rhesymau					
6	Unrhyw ddefnyddiau asesu perthnasol	Asesiad cychwynnol/craidd					
		Adroddiadau adran 7 a 37					
		Defnyddiau perthnasau a ffrindiau (ee. genogram)					
7	Adroddiadau a chofnodion perthnasol eraill	Defnyddiau sengl, ar y cyd neu ryngasiantaeth					
		Cofnodion o drafodaethau gyda'r teulu					
		Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion allweddol yr ALI ar gyfer y plentyn (gan gynnwys Cofnod Trafod Strategaeth)					
8	Cynlluniau gofal cyn–gyfredol (ee. cynllun plentyn mewn gofal, cynllun plentyn yn derbyn gofal a chynllun amddiffyn plentyn)						
9	Cronoleg Gwaith Cymdeithasol						
10	Llythyrau Cyn Achos						
11	Dogfennau cyn-achos perthnasol eraill (manyler)						

RHAN 2 - Cofnod o ddogfennau rheoli achos a ffeilwyd

Mae'r Rhan hon i'w defnyddio gan y llys i gofnodi'r dogfennau rheoli achos a ffeilwyd i'r llys ar gyfer Cyfnodau 1, 2 a 3

		Ffeilwyd ar gyfer AC	**Ffeilwyd ar gyfer CRhA**	**Cyf Ffeilwyd ar gyfer GDM**	**Nodiadau**
1	Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol				
2	Crynodebau o Achos Partïon Erail				M
					T
					Arall
3	Datganiadau tystion cychwynnol partïon				M
					T
					Arall
4	CAFCASS/ CAFCASS CYMRU Dadansoddiad Achos ac Argymhellion				
5	Gorchmynion Rheoli Achos Drafft ar gyfer CRhA/GDM				
6	Dogfennau rheoli achos eraill (manyler)				

Atodiad B: Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol

ATODIAD B

Crynodeb o Achos yr Awdurdod Lleol

Ceisiadau ac achos blaenorol

1. Y ceisiadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yw:

Ceisydd	Gorchymyn a Geisir	Dyddiad	Cyfeirnod y bwndel

2. Mae'r plentyn[plant] yn destun y gorchmynion isod a wnaed o'r blaen yn yr achos hwn/mewn achos arall:

Gorchymyn	o blaid	Llys	Dyddiad y gorchymyn	Rhif yr achos	Cyfeirnod y bwndel

Trefniadau ar gyfer y plentyn[plant]

3. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer y plentyn[plant] fel a ganlyn

(a) Trefniadau byw:

Plentyn	Yn byw gyda:

(b) Trefniadau cyswllt:

Plentyn	Yn cael cyswllt â:	Pa mor aml

Crynodeb o ddigwyddiadau sbardunol a chefndir

4. Isod ceir crynodeb byr o'r digwyddiad(au) neu amgylchiadau sy'n sail i'r cais ac o gefndir yr achos:

Gallu Meddyliol

5. Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bryderon / y mae gan yr awdurdod lleol y pryderon canlynol ynghylch gallu meddyliol y fam / tad / *[oedolyn arall]* i ofalu am y plentyn neu i baratoi ar gyfer yr achos:

Materion allweddol a chanfyddiadau

1. Materion Allweddol yr achos yw:

a)	
b)	
c)	
d)	

2. Yng nghyswllt y Materion Allweddol uchod, cytunir ynglŷn â'r canlynol:

a)	
b)	
c)	
d)	

3. Yn ychwanegol, cytunir ynghylch y canfyddiadau ffeithiol isod a geisir gan yr awdurdod lleol ar y sail ganlynol:

Canfyddiad a geisir	Sail cytundeb

Ceisiadau/achos perthnasol

4. Mae hwn / nid yw hyn yn achos lle mae cais am leoliad ar gyfer mabwysiadu ymhlith yr ystod o opsiynau y bydd yn rhaid eu hystyried.

5. Mae'r achos cyfredol neu arfaethedig isod (ee. achos troseddol, achos teulu arall, disgyblaeth, mewnfudo neu benderfyniadau gallu/iechyd meddyliol) yn berthnasol i benderfynu ynglŷn â'r cais[ceisiadau]:

Achos	Partïon	Llys/Corff	Cam a gyrhaeddwyd	Sylwadau.

Materion a chyfarwyddiadau ar gyfer CRhA/GDM

6. Yn y Gynhadledd Rheoli Achos/Gwrandawiad Datrys Materion, bydd gofyn i'r materion, cyfarwyddiadau a gorchmynion interim isod gael eu hystyried gan y llys:

a)	
b)	
c)	
d)	
e)	
f)	

Cydymffurfio

7. Ni chymerwyd y camau isod am y rhesymau a esboniwyd ac mae'r effaith ar yr amserlen fel a ganlyn:

Dyddiad Allweddol	Cam i'w gymryd	Rheswm dros beidio â chydymffurfio	Dyddiad disgwyl cydymffurfio / Effaith ar yr amserlen

Rhestr ddarllen gymeradwy ac amser darllen

8. Yr isod yw'r dogfennau allweddol i'w darllen fel paratoad ar gyfer y gwrandawiad:

Dogfen	Awdur	Statws/rôl	Dyddiad	Tudalen yn y bwndel

9. Awgrymir mai'r amser darllen sydd ei angen ar gyfer y gwrandawiad yw:

Gwybodaeth ychwanegol

10. Mae'r wybodaeth ychwanegol isod yn berthnasol i'r amserlen ar gyfer y plentyn [plant] neu i gynnal y gwrandawiad neu achos.

Manylion cyswllt: eiriolwyr, twrneiod a gweithwyr proffesiynol allweddol

Parti	Statws	Enw	Rhif ffôn:	Ebost:
Ceisydd Awdurdod Lleol	Eiriolwr Twrnai Gweithiwr allweddol/rheolwr tîm			
Atebwyr: (1) Mam (2) Tad (3) Parti arall	 (1) Eiriolwr Twrnai (2) Eiriolwr Twrnai (3) Eiriolwr Twrnai			
Plentyn (Plant)	Eiriolwr Twrnai Gwarcheidwad:			

Atodiad C: Drafftio Gorchymyn Rheoli Achos

ATODIAD C

Gorchymyn Rheoli Achos Drafft Rhif yr Achos

Rhif y Plentyn (Plant)

Achos Teulu / Llys Sirol [ ]

Yr Uchel Lys yn eistedd yn [ ]
Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu

RHAN 1 – Rhagarweiniol

Y plentyn[plant] yw:

Enw	**Bachgen/Merch**	**Dyddiad Geni**
(1)		
(2)		
(3)		

Dyddiad y Gorchymyn hwn:
Gorchmynnwyd gan:
Yn eistedd yn breifat/yn gyhoeddus
yn y Gynhadledd Rheoli Achos / Gwrandawiad Datrys Materion
neu yn y gwrandawiad [a wrthwynebwyd] o gais [a wnaed heb hysbysiad] gan
ar ran
neu [arall]

Clywodd y llys yr eiriolwyr ar ran y partïon canlynol:

Parti	**Statws**	**Cwnsel/twrnai/eiriolwr**
Ceisydd	Awdurdod Lleol	
Atebwyr:		
(1) X	Mam	
(2) Y	Tad	
(3) Z	Arall	
Plentyn(Plant)	Gwarcheidwad:	

A'r partïon isod drostynt eu hunain:

Parti	**Statws**

[Mae'r llys wedi clywed a darllen y dystiolaeth a nodir yn y Cofnod Gwrandawiad [Ffurflen C22]

Gwneir y gorchymyn hwn ar sail y wybodaeth a gofnodir yn Rhan 3 ynghylch yr amserlen ar gyfer y plentyn(plant), y materion allweddol ac unrhyw gytundebau a phenderfyniadau a wnaed

RHAN 2 - Gorchymyn

Mae'r Llys yn Gorchymyn:

Gorchmynion yng nghyswllt y plentyn

1 *Cofnod o Ffurflenni Gorchymyn Rhagnodedig sydd i'w cyflwyno ar wahân [C23 i C49]*
e.e. Gorchymyn gofal interim / gorchymyn goruchwyliaeth interim / gorchymyn preswyliaeth interim / gorchymyn cyswllt

Cyplysu materion partïon/rhieni

2 Statws parti

3 Tadolaeth / Mamolaeth ac olrhain / cynnwys rhiant absennol / gofalwyr blaenorol

Penodi Gwarcheidwad Plant / Twrnai Plant / Twrnai Swyddogol

4. Penodi gwarcheidwad plant / twrnai ar ran y plentyn

5. Penodi Twrnai Swyddogol fel gwarcheidwad ad litem / cyfaill cyfreitha ar gyfer plentyn nad yw'n destun achos neu barti dan warchodaeth

Trosglwyddo / Dyrannu i Reolwr Achos / Barnwr Rheoli Achos

6. Trosglwyddo

7. Dyrannu

Tystiolaeth i'w chyflwyno

8. Tystiolaeth
   a. awdurdod lleol
   b. rhieni
   c. [arall]
   d. gwarcheidwad plant

9. Asesiadau
   a. Craidd a chychwynnol
   b. Magu plant (gan gynnwys preswyl)
   c. Ffrindiau a Theulu
   d. [arall, gan gynnwys arbenigol]

10. Cynllunio gofal

Dogfennau eraill

11. Atodlen o Ganfyddiadau Arfaethedig yr ALl

12. Crynodeb Achos yr ALl, Crynodebau Achos Partïon Eraill a'r Dadansoddiad Achos a'r Argymhellion

13. Datgelu dogfennau (boed hwy i'w ffeilio a/neu eu cyflwyno)
    a. Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion allweddol yr ALl na ddatgelwyd fel dogfennau cyn-achos
    b. Cofnodion iechyd (gan gynnwys Meddyg Teulu, Ymwelydd Iechyd, clinig ac ysbyty)
    c. Cofnodion addysgol (gan gynnwys AAA)
    d. Cofnodion yr heddlu (gan gynnwys logiau Trais yn y Cartref)
    e. Nodiadau cyswllt

Tystiolaeth arbenigol

14. Enwi'r arbenigwr

15. Dynodi Mater(ion) Allweddol i gael sylw

16. Caniatâd i gyfarwyddo
    a. Cyfrifoldeb dros gyfarwyddo (ar y cyd/unig)
    b. Llythyr cyfarwyddo
    c. Amserlen
    d. Ffeilio a chyflwyno adroddiad (papur/electronig)
    e. Cwestiynau i'r arbenigwr
    f. Caniatâd i archwilio/arsylwi'r plentyn
    g. Cyllid
    h. Trefniadau i'r arbenigwr roi tystiolaeth lafar (yn y cnawd neu drwy cyswllt fideo/sain)

17. Cyfarfod arbenigwyr
    a. Cyfrifoldeb dros drefnu a chadeirio
    b. Cwestiynau
    c. Rhestr cytundebau ac anghytundebau

Cyfarfod Eiriolwyr

18. Cyfarfod

19. Drafftio Gorchymyn Rheoli Achos a chynigion arbenigwyr

Gwrandawiadau Pellach

20. Mae'r gwrandawiad nesaf am [ ][a.m.][p.m.] ar [ ]

    yn [ ] ac mae'n:

    [Wrandawiad Datrys Materion]

    [Gwrandawiad Terfynol Cynnar]

    [Gwrandawiad Canfod Ffeithiau lle penderfynir ynghylch y canfyddiadau a nodir yn atodlen canfyddiadau'r awdurdod lleol]

    [Gwrandawiad Terfynol lle bydd]

    [Arall (dynoder NOD y gwrandawiad)]

21. Mesurau Arbennig a Diogelwch

22. Presenoldeb yn y llys

23. Defnyddio Technoleg a Gofynion arbennig
    a. cyswllt fideo
    b. cyswllt ffôn cynadledda
    c. cymhorthion clyw
    d. gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
    e. cyfarwyddiadau cyfieithu

Ceisiadau eraill

24. Cyfarwyddiadau mewn ceisiadau cydamserol eraill (e.e. ar gyfer Preswyliaeth/Cyswllt)

25. Cyfarwyddiadau mewn Ceisiadau Lleoliad ar gyfer Mabwysiadu

Bwndeli ar gyfer gwrandawiadau

26. Gofynion Bwndeli Cyfarwyddyd Ymarfer
    a. Trothwy / Atodlen Canfyddiadau y cytunwyd yn eu cylch neu a ddiwygiwyd
    b. Templed Tyst
    c. Dadleuon fframwaith
    d. Rhestr Ddarllen Farnwrol
    e. Amcan amser ar gyfer pennu amser darllen ac amser ysgrifennu dyfarniad
    f. Arall (ee [Rhaid i'r partïon gydymffurfio â Chyfarwyddyd Ymarfer y Llywydd (Achos Teulu: Bwndeli Llys), 27 Gorffennaf 2006, [2006] 2 FLR 199. Mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i bob gwrandawiad yn yr achos hwn, beth bynnag yw'r amcangyfrif o hyd y gwrandawiad.]

Gorchmynion eraill

27. Ni chaiff unrhyw ddogfen heblaw dogfen a bennwyd yn y cyfarwyddiadau hyn neu a gyflwynwyd yn unol â'r Rheolau neu unrhyw Gyfarwyddyd Ymarfer gael ei chyflwyno gan unrhyw barti heb ganiatâd y llys.

28. Mae unrhyw gais i newid y cyfarwyddiadau hyn neu am unrhyw orchymyn arall i'w wneud i'r barnwr dynodedig gyda hysbysiad i [ ] bob parti.

Cydymffurfio â chyfarwyddiadau

29. Rhaid i bob parti hysbysu'r Llys/Swyddog y Llys ar unwaith ar *[rhif ffôn / e-bost cyswllt]* os bydd unrhyw barti yn methu â glynu wrth unrhyw ddyddiad a bennwyd ar gyfer cyfarwyddyd neu gyflwyno unrhyw ddogfen.

Dyddiad **(llofnod)**

Barnwr yr Uchel Lys/Ei Anrhydedd y Barnwr/Barnwr Rhanbarth/Barnwr Rhanbarth(Llys Ynadon)/Ynad Heddwch/Clerc yr Ynadon [Cynorthwyol]

Cyfeiriad y llys:

RHAN 3 – Croniclau

Yr Amserlen ar gyfer y Plentyn(plant)

A materion allweddol, cytundebau a phenderfyniadau

Cofnodir:

1. Y dyddiadau a'r digwyddiadau allweddol yn yr Amserlen ar gyfer y Plentyn(Plant) yw:

a)	
b)	
c)	
d)	

2. Nid oes unrhyw oedi [Mae'r oedi canlynol] yn yr amserlen ar gyfer yr achos a bennwyd gan y llys yn unol â'r Amserlen ar gyfer y Plentyn *(noder unrhyw oedi a'r rhesymau)*

3. Y Mater(ion) Allweddol yn yr achos yw:

a)	
b)	
c)	
d)	

4. Mae'r partïon wedi cytuno ynghylch y Materion Allweddol a/neu ganfyddiadau ffeithiol isod:

a)	
b)	
c)	
d)	

5. Mae'r llys yn gwneud y casgliadau neu benderfyniadau isod fel sail ar gyfer y gorchymyn hwn:

a)	
b)	
c)	
d)	

Siart Llif: Cyn yr achos - Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus




Gweithiwr cymdeithasol yr Awdurdod Lleol yn cyfarfod ag chgynghorwyr cyfreithiol yr Awdurdod Lleol e.e. cyfarfod cynllunio cyfreithiol/cyfarfod mynediad cyfreithiol
Penderfynu ar unwaith gwneud cais am Orchymyn Goruchwylio/Gofal
Cytuno mewn egwyddor â'r penderfyniad i wneud cais am Orchymyn Goruchwylio/Gofal, ond nid oes angen ei roi ar waith ar unwaith gan nad yw pryderon yr Awdurdod Lleol yn rhai brys
Rheolwr tîm gwaith cymdeithasol yn anfon 'Llythyr Cyn Achos'
Cyfarfod â'r gweithiwr cymdeithasol, y rheolwr, y rhieni a chynrychiolydd cyfreithiol y rhieni er mwyn trafod y 'Llythyr Cyn Achos', a, chyn belled ag y bo modd, cytuno ar gamau pellach i ddiogelu'r plentyn
Darparu cynllun newydd ar gyfer y plentyn i'r rhieni a'u cynrychiolydd cyfreithiol. Bydd y cynllun yn nodi'r hyn a wneir gan y rhieni a'r Awdurdod Lleol i ddiogelu'r plentyn, a pha gamau a gymerir gan yr Awdurdod Lleol i ddiogelu'r plentyn oni wneir hynny
Adolygu'r cynllun a'i egluro, a hynny ar adeg sy'n cyd-fynd ag anghenion y plentyn. Anfon fersiwn ysgrifenedig o'r canlyniadau at bob parti, a'u cyflwyno ar lafar i'r rhieni
Os bydd yn aflwyddiannus, cynhelir cyfarfod cynllunio cyfreithiol/cyfarfod mynediad cyfreithiol a phenderfynu cyhoeddi'r cais ar unwaith
Casglu dogfennau o ffeiliau'r Awdurdod Lleol i'w datgelu; paratoi'r dogfennau ar gyfer yr achos llys
Gwneud cais am Orchymyn Goruchwylio neu Ofal, yn unol â Chyfrol 1 Canllaw Deddf Plant ac Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
Ni chyrhaeddir y trothwy
Yr ymyriad yn parhau gyda chynllun a ddiweddarwyd ar gyfer y plentyn h.y. Cynllun Gofal plentyn sy'n derbyn gofal, Plentyn mewn Angen neu Amddiffyn Plant
Os bydd yn llwyddiannus

Siart Llif: Trefn y Llys - Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus



CAM 3
Cyfarfod Eiriolwyr/Trafodaeth a Gwrandawiad Datrys Materion
CAM 4
Gwrandawiad
Trafodaeth/Cyfarfod Eiriolwyr
Diweddaru'r Gorchymyn Rheoli Achos Drafft
Y Gorchymyn Rheoli Achos Drafft yn cael ei ffeilio gyda'r llys
Gwrandawiad Datrys Materion
Bydd y Llys yn gwneud y canlynol: Dynodi'r prif faterion sy'n weddill y mae angen eu datrys; craffu ar gydymffurfiad â'r cyfarwyddiadau presennol; gwneud rhagor o gyfarwyddiadau gan gynnwys trefnu gwrandawiadau eraill; craffu ar y Cynllun Gofal; adolygu a chadarnhau'r 'Amserlen ar gyfer y Plentyn', datrys a lleihau nifer y materion sy'n weddill
Gwrandawiad
Bydd y llys hefyd yn gwneud cyfarwyddiadau ynghylch datgelu pan ddaw'r achos i ben

Mae rhagor o gopïau o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan y rhaglen achosion gofal: www.justice.gov.uk/guidance/careproceedings.htm